

# GOSOD EICH CROES BREN EICH HUN

Mae'r wybodaeth ganlynol ar gyfer y rhai sydd eisiau gosod eu croes bren eu hunain ar fedd neu lain gweddillion wedi'u llosgi.

## YR HYN SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD:

- Cysylltwch â'r Rheolwr Cofebau yn Swyddfa Mynwent Draenen Pen-y-graig  
029 2054 4820.
- Llenwch a chyflwyno ffurflen gais ar gyfer Trwydded Cofeb cyn i chi allu gosod croes bren.
- Archwilir manylion y fynwent, rhan o'r fynwent, rhif y bedd a pherchennog y bedd i chi i sicrhau bod y person cywir yn llofnodi'r ffurflen gais.
- Mae'r dimensiynau mwyaf a ganiateir fel y canlyn:

**MAE'R GROES I GAEL EI HADEILADU O DDAU DDARN O BREN NA  
FYDD YN FWY NA 3.5" O LED A 2" O DRWCH A PHAN Y'I CODIR NI  
FYDD YN FWY NA  
12" NEU 3' O UCHDER YN DIBYNNU AR BA RAN O'R FYNWENT Y  
BYDD YNDDI.  
CADARNHEWCH GYDA'R RHEOLWR COFEBAU.**

- Ni chaniateir unrhyw bwyntiau ar y groes, am resymau iechyd a diogelwch, ac eithrio ar waelod y groes i'w gosod.
- Codir tâl coffa o **£20.00** a dylai pob siec fod yn daladwy i 'Gyngor Caerdydd'  
Anfonwch eich ffurflen gais yn ôl ynghyd â'ch tâl coffai;  
Gwasanaethau Profedigaeth, Thornhill Road, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 9UA.

## NODER:

Cyfrifoldeby teulu yw'r groes bren a osodir ar y bedd a dylent ei chadw mewn cyflwr da, bydd yr Awdurdod yn gwaredu'r groes fel arall.

Adnewyddu – Os oes angen i chi adnewyddu'r groes, cysylltwch â'r Rheolwr Cofebau yn y Gwasanaethau Profedigaeth, fel y bydd y cofnodion perthnasol yn gyfoes, hefyd, gallwn ddweud wrth deulu sy'n ymweld â'r bedd bod y groes yn cael ei hadnewyddu er mwyn lleihau unrhyw ofid.

## **GOSOD EICH CROES BREN**

- Gallwch osod croes ar y bedd pan ydych wedi derbyn trwydded i wneud hynny yn unig.
- Os oes pryderon gennych ynglŷn â lleoliad y bedd neu le i osod y groes, gallwch gysylltu ag aelod o staff cyn i chi ymweld â'r fynwent fel y trefnir apwyntiad cyfleus: Mae cyfnod o 24-48 awr (dydd Llun i ddydd Gwener) yn gall.
- Peidiwch â smentio'r groes i'w lle – mae pen pigfain wedi'i gwthio i mewn i'r ddaear yn ddigonol i gadw'r groes mewn lle.

## **AR ÔL GOSODY GROES**

- Ewch â'r Drwydded yn ôl i swyddfa'r fynwent, fel y gellir archwilio'r groes a diweddarau cofnodion Bydd hyn yn sicrhau bod lleoliad y groes yn gywir a bod y groes yn solet.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â gosod eich croes bren, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â'r Rheolwr Cofebau ar 029 2054 4820.